OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1081 (Cy.115)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BRYNDIROEDD

## Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Ebrill 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *15 Ebrill 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Mai 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 20(1) o Ddeddf Ffermio Mynydd 1946(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Mai 2008 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “ardal ucheldirol” (“*upland area*”) yw unrhyw ddarn o dir sydd wedi'i liwio'n binc ar y ddwy gyfrol o fapiau sydd wedi'u rhifo'n 1 a 2, y naill gyfrol a'r llall wedi'u marcio “Cyfrol o fapiau o ardaloedd ffermio llai ffafriol yng Nghymru”, wedi'u dyddio 20 Mai 1991, eu llofnodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'u hadneuo yn Llyfrgell Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, CF10 3NQ;

mae i'r term “hysbysiad llosgi” (“*burning notice*”) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 8(1);

ystyr “llystyfiant penodedig” (“*specified vegetation*”) yw grug, glaswellt garw, rhedyn, eithin neu vaccinium;

ystyr “tir rheilffordd” (“*railway land*”) yw tir sy'n rhan o unrhyw reilffordd sy'n weithredol;

ystyr “tymor llosgi” (“*burning season*”)—

(**1**) 1946 p.73.

(**2**) O ran Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd adrannau 58 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 26 a 30 iddi, mae'r swyddogaethau hyn bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(a) o ran tir mewn ardal ucheldirol, yw'r cyfnod o 1 Hydref mewn un flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol, a'r ddau ddyddiad yn gynhwysol; a

(b) o ran tir nad yw mewn ardal ucheldirol, yw'r cyfnod o 1 Tachwedd mewn un flwyddyn hyd at 15 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol, a'r ddau ddyddiad yn gynhwysol.

**Eithrio tir sy'n cael ei drin fel gerddi preifat neu erddi rhandir**

**3.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i dir sy'n cael ei drin fel gerddi preifat neu erddi rhandir.

**Eithrio rhag darpariaethau penodol ynghylch llosgi ar dir rheilffordd**

**4.** Nid yw rheoliadau 6(1)(b) i (d), 8 a 9 yn gymwys i waith llosgi unrhyw lystyfiant penodedig a wneir ar dir rheilffordd drwy neu o dan awdurdod Network Rail.

**Rheoleiddio llosgi**

**5.**—(1) Rhaid i berson beidio â dechrau llosgi unrhyw lystyfiant penodedig ar unrhyw dir rhwng machlud a chodiad haul.

(2) Rhaid i berson beidio â llosgi unrhyw lystyfiant penodedig ar unrhyw dir oni bai—

(a) bod y person wedi llunio cynllun llosgi a'i fod yn bwriadu llosgi'n unol â darpariaethau'r cynllun hwnnw;

(b) yn y man lle mae'r gwaith llosgi yn cael ei wneud, bod digon o bersonau a chyfarpar i reoli a rheoleiddio'r gwaith llosgi yn ystod y cyfnod cyfan y bydd y gwaith yn mynd rhagddo;

(c) bod y person yn cymryd pob rhagofal rhesymol, cyn dechrau llosgi ac yn ystod yr holl gyfnod y bydd y gwaith yn mynd rhagddo, i atal niwed neu ddifrod i unrhyw dir cyfagos, neu i unrhyw berson neu unrhyw beth ar y tir hwnnw; ac

(ch) bod y person wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig, a hynny heb fod yn llai na 24 awr a heb fod yn fwy na 72 awr cyn dechrau llosgi ar unrhyw dir, o'r dyddiad neu'r dyddiadau y bwriedir llosgi, yr amser y bwriedir ei wneud, ac o'r man, a maint yr ardal, lle bwriedir ei wneud—

(i) i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn y tir hwnnw naill ai fel perchennog neu feddiannydd, a

(ii) ac eithrio yn achos unrhyw losgi a wneir ar dir rheilffordd, i unrhyw berson arall y mae'n hysbys ei fod â gofal dros unrhyw dir sy'n gyfagos â'r tir lle mae'r llosgi i'w wneud, neu y gellid darganfod, drwy arfer diwydrwydd rhesymol, ei fod â gofal dros y tir hwnnw.

**Gwahardd llosgi ac eithrio o dan drwydded**

**6.**—(1) Rhaid i berson beidio â gwneud unrhyw un o'r canlynol ac eithrio o dan drwydded (ac yn unol â thrwydded) a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 7—

(a) llosgi unrhyw lystyfiant penodedig y tu allan i'r tymor llosgi;

(b) llosgi, mewn tymor llosgi, ddarn unigol ag arwynebedd o fwy na 0.5 hectar o lystyfiant penodedig, neu ddau ddarn neu fwy sydd o fewn 5 metr i'w gilydd a'u harwynebedd cyfunol yn fwy na 0.5 hectar o lystyfiant penodedig, ac—

(i) y mae i'r darn unigol neu'r darn cyfunol hwnnw lethr o fwy na 45 gradd; neu

(ii) lle mae mwy na hanner y darn unigol neu'r darn cyfunol hwnnw wedi'i orchuddio gan greigiau neu farian sydd yn yr amlwg;

(c) llosgi, mewn llosgiad unigol, arwynebedd o fwy na 10 hectar o lystyfiant penodedig;

(ch) llosgi, mewn tymor llosgi, lystyfiant penodedig mewn modd sy'n dwyn i'r amlwg—

(i) darn unigol ag arwynebedd o fwy na 0.5 hectar o bridd moel, neu ddau ddarn neu fwy sydd o fewn 5 metr i'w gilydd ac y mae eu harwynebedd cyfan yn fwy na 0.5 hectar o bridd moel; neu

(ii) llecyn o bridd moel sydd—

(aa) yn ymestyn am fwy na 25 metr ar hyd glan cwrs dŵr; a

(bb) yn fwy na metr ei led ym mhob pwynt (am bellter parhaus o fwy na 25 metr), o'i fesur o ymyl glan y cwrs dŵr;

(d) mewn cysylltiad â llosgi llystyfiant penodedig, gadael pridd yn mudlosgi am fwy nag 48 awr.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) ystyr "llecyn o bridd moel" ("*area of bare soil*") yw llecyn o bridd nad oes dim mwy na 2% ohono wedi'i orchuddio â llystyfiant neu ysbwriel planhigion;

(b) ystyr "cwrs dŵr" ("*watercourse*") yw unrhyw sianel naturiol neu artiffisial y mae dŵr yn llifo drwyddi, p'un ai am ran neu'r cyfan o'r amser, gan gynnwys afonydd, nentydd, ffosydd, gweunffosydd, traeniau, trychfeydd, cwlfertau, rhewynnau a sianeli gofer, ond heb gynnwys prif bibellau a phibellau eraill.

**Darpariaethau ynghylch dyroddi neu wrthod trwyddedau**

**7.**—(1) Caiff person wneud cais i Weinidogion Cymru am drwydded sy'n caniatáu i'r ceisydd losgi llystyfiant penodedig y tu allan i'r tymor llosgi neu mewn modd sydd wedi'i wahardd fel arall gan reoliad 6(1).

(2) Rhaid i unrhyw gais gael ei wneud mewn modd a bennir gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo gael ei wneud heb fod yn llai nag 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad (neu'r dyddiad cyntaf os oes mwy nag un) y mae'r ceisydd yn bwriadu llosgi arno, ac—

(a) yn achos llosgiad (neu losgiadau) y bwriedir iddo (neu iddynt) ddigwydd yn ystod tymor llosgi, nid cyn diwedd y tymor llosgi blaenorol; neu

(b) yn achos llosgiad (neu losgiadau) y bwriedir iddo (neu iddynt) ddigwydd yn ystod tymor llosgi, nid mwy na 56 o ddiwrnodau cyn y dyddiad (neu'r dyddiad olaf os oes mwy nag un) y mae'r ceisydd yn bwriadu llosgi arno.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru roi trwydded ond os ydynt wedi'u bodloni bod y llosgi arfaethedig i'w wneud yn unol â darpariaethau cynllun llosgi a luniwyd gan y ceisydd a'i fod—

(a) yn achos tir rheilffordd, yn angenrheidiol neu'n hwylus i gynnal a chadw'r tir yn dda neu at ddibenion rheoli plâu; neu

(b) yn achos pob tir arall, yn angenrheidiol neu'n hwylus—

(i) i warchod, gwella neu reoli'r amgylchedd naturiol er lles y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol; neu

(ii) er diogelwch unrhyw berson.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu—

(a) peidio â dyroddi trwydded o dan baragraff (3);

(b) dyroddi trwydded mewn cysylltiad â rhan yn unig o'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef; neu

(c) dyroddi trwydded yn ddarostyngedig i unrhyw amodau,

rhaid iddynt hysbysu'r ceisydd mewn ysgrifen o'u penderfyniad ac o'r rhesymau drosto.

### Hysbysiadau llosgi

**8.**—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn credu bod llystyfiant penodedig wedi'i losgi'n groes i'r Rheoliadau hyn, cânt gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad llosgi") i feddiannydd y tir o dan sylw yn ei gwneud yn ofynnol iddo eu hysbysu, yn y modd a bennir ganddynt yn yr hysbysiad llosgi, o unrhyw fwriad i losgi unrhyw lystyfiant penodedig ar unrhyw dir y mae'n ei feddiannu o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad hwnnw.

(2) Ni chaniateir i hysbysiad llosgi fod yn gymwys am fwy na dwy flynedd o ddyddiad ei gyflwyno.

### Sylwadau yn erbyn hysbysiadau llosgi

**9.**—(1) Caiff person, y mae hysbysiad llosgi wedi'i gyflwyno iddo, gyflwyno sylwadau yn erbyn yr hysbysiad hwnnw i berson a benodir i'r perwyl hwnnw gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i unrhyw sylwadau o'r fath gael eu cyflwyno o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad llosgi.

(3) Rhaid i'r person penodedig ystyried y sylwadau a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig o'u dyfarniad terfynol a'r rhesymau drosto.

(5) Pan fo person yn cyflwyno sylwadau yn erbyn hysbysiad llosgi, mae'r hysbysiad llosgi'n cael effaith hyd nes y caiff ei ddirymu gan Weinidogion Cymru, ei dynnu'n ôl ganddynt neu hyd nes y daw ei gyfnod i ben.

### Diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004

**10.** Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004(**3**) wedi'u diwygio drwy roi'r canlynol yn lle paragraff 16 (Llosgi grug a glaswellt) o'r Atodlen—

> "**16.**—(1) Rhaid i ffermwr beidio â dechrau llosgi grug, glaswellt garw, rhedyn, eithin na vaccinium ar unrhyw dir rhwng machlud a chodiad haul.
>
> (2) Rhaid i ffermwr beidio â llosgi grug, glaswellt garw, rhedyn na vaccinium oni bai—
>
> (a) ei fod wedi llunio cynllun llosgi a'i fod yn bwriadu llosgi'n unol â darpariaethau'r cynllun hwnnw;
>
> (b) yn y man lle mae'r gwaith llosgi yn cael ei wneud, bod digon o bersonau a chyfarpar i reoli a rheoleiddio'r llosgi yn ystod y cyfnod cyfan y bydd y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo;
>
> (c) ei fod, cyn dechrau llosgi ac yn ystod y cyfnod cyfan y bydd y gwaith yn mynd rhagddo, yn cymryd pob rhagofal rhesymol i atal niwed neu ddifrod i unrhyw dir cyfagos, neu i unrhyw berson neu beth ar y tir hwnnw;
>
> (ch) bod y person wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig, a hynny heb fod yn llai na 24 awr a heb fod yn fwy na 72 awr cyn dechrau llosgi ar unrhyw dir, o'r dyddiad neu'r dyddiadau y bwriedir llosgi, yr amser y bwriedir ei wneud, ac o'r man, a maint yr ardal, lle bwriedir ei wneud—
>
> (i) i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn y tir hwnnw naill ai fel perchennog neu feddiannydd, a

(**3**) O.S. 2004/3280 (Cy. 284), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(ii) ac eithrio yn achos unrhyw losgi a wneir ar dir rheilffordd, i unrhyw berson arall y mae'n hysbys ei fod â gofal dros unrhyw dir sy'n gyfagos â'r tir lle mae'r llosgi i'w wneud, neu y gellid darganfod, drwy arfer diwydrwydd rhesymol, ei fod â gofal dros y tir hwnnw.

(3) Rhaid i ffermwr beidio â llosgi grug, glaswellt garw, rhedyn, eithin na vaccinium—

(a) ar dir sydd mewn ardal ucheldirol, yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn, a'r ddau ddyddiad yn gynhwysol; neu

(b) ar bob tir arall, yn ystod y cyfnod o 16 Mawrth i 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn, a'r ddau ddyddiad yn gynhwysol,

ac eithrio o dan drwydded (ac yn unol â thrwydded) a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 7 o Reoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008.

(4) Yn is-baragraff (3), ystyr "ardal ucheldirol" ("*upland area*") yw unrhyw ddarn o dir sydd wedi'i liwio'n binc ar y ddwy gyfrol o fapiau sydd wedi'u rhifo'n 1 a 2, y naill gyfrol a'r llall wedi'u marcio "Cyfrol o fapiau o ardaloedd ffermio llai ffafriol yng Nghymru", wedi'u dyddio 20 Mai 1991, eu llofnodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'u hadneuo yn Llyfrgell Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, CF10 3NQ."

**Dirymu**

**11.** Mae'r offerynnau canlynol wedi'u dirymu o ran Cymru —

(a) Rheoliadau Grug a Glaswellt etc. (Llosgi) 1986(**4**);

(b) Rheoliadau Grug a Glaswellt etc. (Llosgi) (Diwygio) 1987(**5**).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

14 Ebrill 2008

(**4**) O.S. 1986/428, a ddiwygiwyd gan O.S. 1987/1208, 2003/1615.
(**5**) O.S. 1987/1208, a ddiwygiwyd gan O.S. 2003/1615.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Grug a Glaswellt etc. (Llosgi) 1986 ("y Rheoliadau blaenorol") o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu rhai o ddarpariaethau'r Rheoliadau blaenorol a hefyd yn rhagnodi darpariaethau newydd a fydd yn rheoli gwaith llosgi grug, glaswellt garw, rhedyn, eithin a vaccinium.

Fel yn achos y Rheoliadau blaenorol, nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i erddi preifat na gerddi rhandir (er nad oes eithriad bellach ar gyfer parciau difyrion) (rheoliad 3) ac nid yw rhai o'r darpariaethau sydd ynddynt yn gymwys i dir rheilffordd (rheoliad 4).

Fel yn achos y Rheoliadau blaenorol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwahardd dechrau llosgi rhwng machlud a chodiad haul, ac yn ei gwneud yn ofynnol bod digon o bersonau a chyfarpar ar gael i reoli llosgiadau a chymryd pob rhagofal rhesymol i atal llosgiadau rhag peri niwed neu ddifrod (rheoliad 5). Mae'n ofynnol bellach i bersonau sy'n llosgi lunio cynllun llosgi a llosgi'n unol â'r cynllun hwnnw. Mae'n dal yn ofynnol i bersonau sy'n llosgi hysbysu eraill sydd â buddiant yn y tir y mae'r llosgi i'w wneud arno, neu dir sy'n gyfagos ag ef, o'u bwriad i losgi.

Mae rheoliad 6(1)(a) yn gwahardd llosgi heb drwydded y tu allan i'r "tymor llosgi" (a ddiffinnir yn rheoliad 2 ac sy'n gyfnod hwy ar gyfer tir yn yr ucheldiroedd nag ar gyfer tir sydd y tu allan iddo). Mae hyn yn adlewyrchu'r Rheoliadau blaenorol. Mae rheoliad 6(1)(b) i (d) yn gwahardd ymgymryd â rhai arferion llosgi ychwanegol heb drwydded. Mae rheoliad 7 yn sefydlu gweithdrefn newydd ar gyfer gwneud cais am drwyddedau.

Mae rheoliad 8 yn ddarpariaeth newydd sy'n rhoi i Weinidogion Cymru bŵer, pan fônt yn credu bod llosgi wedi'i wneud yn groes i'r Rheoliadau hyn, i'w gwneud yn ofynnol i feddiannydd y tir o dan sylw eu hysbysu o losgiadau'r dyfodol am gyfnod o hyd at ddwy flynedd. Mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth i bersonau gael cyflwyno sylwadau i berson a benodir gan Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad i osod gofyniad o'r fath.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004 yn y fath fodd ag i wneud gofynion rheoliadau 5 a 6(1)(a) yn ddarostyngedig i drawsgydymffurfio o dan y Cynllun Taliad Sengl. O'r blaen, yr oedd y gofyniad i hysbysu o fwriad i losgi hefyd yn ddarostyngedig i drawsgydymffurfio.

Mae'r pŵer i fynd ar dir a'i arolygu at ddibenion y Rheoliadau hyn yn cael ei reoli gan adran 34 o Ddeddf Ffermio Mynydd 1946, ac mae adran 20(2) o'r Ddeddf honno'n darparu bod unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi'i gynnal mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.